PWYLLGOR CRAFFU’R ECONOMI A DIWYLLIANT

DYDD MAWRTH, 25 EBRILL 2023

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Wong(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Berman, Henshaw, Jenkins, Lloyd Jones a/ac Naughton |

74 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Roedd ymddiheuriadau wedi’u derbyn gan y Cynghorwyr Brown-Reckless, Cunnah a Thomson.
Roedd ymddiheuriadau hefyd wedi’u derbyn gan Zack Hellard, Cynrychiolydd y Cyngor Ieuenctid.

75 : DATGAN BUDDIANNAU

Datganodd y Cynghorydd Lloyd Jones fuddiant personol fel Cadeirydd Prosiect Pererindod Penrhys.

76 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 28 Chwefror 2023 ac ar 21 Mawrth 2023 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

77 : STRATEGAETH GWEITHGARWCH CORFFOROL A CHWARAEON - DIWEDDARIAD AR GYNNYDD O RAN GWEITHREDU

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau mai diben yr eitem hon oedd archwilio'r cynnydd o ran cyflawni blwyddyn un y Strategaeth Gweithgarwch Corfforol a Chwaraeon, gyda chyfle i archwilio'r rôl y gall y Cyngor ei chwarae wrth gefnogi’r gwaith cyflawni.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Burke - yr Aelod Cabinet dros Ddiwylliant, Parciau a Digwyddiadau; Steve Morris – Rheolwr Gweithredol – Chwaraeon, Hamdden a Datblygu; Jon Maidment – Rheolwr Gweithredol – Parciau ac Awdurdod Harbwr Caerdydd; Chris Hadfield – Rheolwr Gweithredol – Hamdden; Laura Williams – Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Chwaraeon, Gweithgarwch Corfforol ac Iechyd, Chwaraeon Caerdydd/Prifysgol Metropolitan Caerdydd a Lauren Idowu – Uwch Arbenigwr Hyrwyddo Iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru

Gwahoddwyd y Cynghorydd Burke i wneud datganiad ac ar ôl hynny rhoddwyd cyflwyniad i'r Aelodau gan Laura Williams a Lauren Idowu.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau, sylwadau ac arsylwadau gan yr Aelodau.

Cydnabu'r Aelodau y bydd blynyddoedd 2-5 y Strategaeth Gweithgarwch Corfforol a Chwaraeon yn cael eu dylanwadu gan y data sydd ar gael ac y byddant yn targedu'n benodol yr anghydraddoldebau cynyddol rhwng grwpiau poblogaeth ac ardaloedd. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i gynnal a'i fod yn cael ei drin fel dogfen ddeinamig sy'n cael ei diweddaru wrth i'r gwaith gael ei weithredu. Roedd yr Aelodau'n gwerthfawrogi'r dull hwn ac maent wedi gofyn am

gopi o'r fersiwn ddiweddaraf, gan ddeall y bydd yn esblygu wrth i'r gwaith fynd rhagddo.

Nododd yr Aelodau fod Blwyddyn 1 y strategaeth wedi gwneud cynnydd sylweddol, gyda dim ond 3 allan o 24 o gamau gweithredu yn annhebygol o gael eu cwblhau eleni. Nododd yr Aelodau y cynnydd canlynol:

- Sefydlwyd llywodraethu, arweinyddiaeth a gwaith partneriaeth da, gyda chyfranogiad gweithredol ar lefel y grŵp arweinyddiaeth i ysgogi newid system.

- Mae gwaith partneriaeth effeithiol yn y cynlluniau peilot ar sail lle wedi arwain at gyd-gynhyrchu'n gryfach gamau gweithredu sy'n mynd i'r afael â rhwystrau i weithgarwch o fewn ardaloedd a grwpiau poblogaeth penodol.

- Mae gwaith recriwtio Actifyddion Gweithgarwch Corfforol a Chwaraeon ar gyfer ardaloedd peilot ar sail lle ar y gweill, gan ategu staff cymunedol presennol.

- Mae bwriad i recriwtio Actifyddion Gweithgarwch Corfforol a Chwaraeon ychwanegol ar gyfer ardaloedd eraill, yn amodol ar sicrhau cyllid.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau am y gwaith parhaus gyda phartneriaid cymunedol i gynnal grwpiau ffocws a recordio straeon fideo ym mis Mai 2023. Nod y gweithgareddau hyn yw nodi rhwystrau i weithgarwch corfforol ar gyfer grwpiau poblogaeth penodol, gan gynnwys cymunedau du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, yn yr ardaloedd peilot ar sail lle. Mynegodd yr Aelodau ddiddordeb mewn derbyn adborth ar ganfyddiadau'r gwaith hwn gan eu bod yn awyddus i ddeall a oes ffyrdd y gallai'r Cyngor roi cymorth i gael gwared ar y rhwystrau hyn a chyfrannu at fynd i'r afael â diffyg gweithgarwch corfforol.

Cydnabu'r Aelodau bwysigrwydd staff hyfforddedig wrth gefnogi unigolion ar eu taith tuag at fwy o weithgarwch corfforol.

Roedd yr Aelodau'n falch o glywed bod lleoliadau gwirfoddoli a gwaith cymunedol yn rhan annatod o gyrsiau gradd perthnasol Prifysgol Metropolitan Caerdydd, gan gynnig i gymunedau weithgareddau/ hyfforddwyr, yn ogystal â chynnig cyfle i fyfyrwyr ennill profiad gyda grwpiau poblogaeth amrywiol.

O ran creu pobl actif ac amgylcheddau actif, nododd yr Aelodau y gydnabyddiaeth a roddir i weithgareddau corfforol unigol ac anghystadleuol, gan gynnwys Ioga, Pilates a Zumba. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau mai cymunedau lleol fydd yn penderfynu a fydd y gweithgareddau hyn yn cael eu cynnwys yn y cynlluniau peilot ar sail lle. Mae gwaith yn cael ei wneud i archwilio lleoedd a mannau i nodi cyfleoedd i bobl fod yn actif, gan ddefnyddio'r pecyn cymorth 'creu mannau iachach'.

Pwysleisiodd yr Aelodau rôl bwysig y Cyngor wrth greu mannau a lleoedd sy'n cefnogi gweithgarwch corfforol, fel sicrhau bod ardaloedd chwarae fel Parc Maltings yn y Sblot yn cael eu dylunio'n dda ac awgrymu darparu digon o seddi mewn parciau i ddarparu ar gyfer y rheiny sydd â symudedd cyfyngedig.

Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ar sut y byddai effaith y Strategaeth Gweithgarwch Corfforol a Chwaraeon yn cael ei mesur. Cawsant wybod y byddai dangosyddion lefel uchel yn cael eu defnyddio, gyda'r ddealltwriaeth eu bod ond yn cynnig darlun rhannol ac nad oes ganddynt wybodaeth fanwl ar lefel gymunedol. Yn ogystal â'r dangosyddion hyn, byddai dulliau fel 'mapio effaith gronnol' a 'thempled

cynnydd a dysgu' yn cael eu defnyddio i ddarparu data ansoddol ac adborth, nodi rhwystrau ac ysgogiadau system, a nodi effaith y gwaith ar unigolion a chymunedau.

Roedd yr Aelodau o'r farn ei bod yn bwysig olrhain gwelliannau yn yr ardaloedd peilot dros amser, gan sicrhau eu bod o fudd i bob cymuned a grŵp poblogaeth drwy leihau diffyg gweithgarwch. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau, ochr yn ochr â dangosyddion lefel uchel, y bydd dangosyddion lleol yn seiliedig ar faterion a nodwyd gan gymunedau lleol yn cael eu defnyddio i ganolbwyntio ar gynnydd wrth fynd i'r afael â rhwystrau ac ysgogiadau system penodol.

CYTUNWYD: y byddai'r Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu arsylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

78 : MONITRO CONTRACT GLL

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau mai diben yr eitem hon oedd monitro'r gwaith o graffu ar gontract y Cyngor gyda GLL i redeg 8 Canolfan Hamdden yng Nghaerdydd. Galluogodd yr eitem hon yr Aelodau i werthuso'r cynnydd a wnaed o ran cyflawni'r contract, gan gynnwys adfer o effaith y pandemig ar gyfraddau cyfranogi a defnyddio a chyllid, y rhaglen gyfalaf, ac a oes unrhyw newidiadau i ymrwymiadau'r Cyngor neu i risgiau i'r Cyngor.

Croesawodd y Cadeirydd Jason Curtis – Rheolwr Aelodaeth Cenedlaethol a Phennaeth Gwasanaeth GLL; Joanne Smith – Rheolwr Cyffredinol, Canolfan Hamdden Llanisien – GLL a Sarah Stork – Rheolwr Gwasanaethau Cleientiaid Hamdden Cyngor Caerdydd. Yn weddill o'r eitem flaenorol roedd y Cynghorydd Burke - yr Aelod Cabinet dros Ddiwylliant, Parciau a Digwyddiadau; Steve Morris – Rheolwr Gweithredol – Chwaraeon, Hamdden a Datblygu; Jon Maidment – Rheolwr Gweithredol – Parciau ac Awdurdod Harbwr Caerdydd a Chris Hadfield – Rheolwr Gweithredol – Hamdden.

Gwahoddwyd y Cynghorydd Burke i wneud datganiad, ac ar ôl hynny rhoddodd Jason Curtis a Joanne Smith eu cyflwyniad. Gofynnwyd i'r Aelodau am eu sylwadau, eu harsylwadau a'u cwestiynau.

Nododd yr Aelodau gyfeiriad cadarnhaol aelodaethau a defnydd, er gwnaethon nhw gydnabod nad yw'r rhain eto wedi dychwelyd i lefelau cyn COVID yn gyffredinol.

Clywodd yr Aelodau am yr ymdrechion parhaus i gynyddu nifer yr ymwelwyr a nodon nhw fod gweithio mewn partneriaeth, yn enwedig gyda chynlluniau atgyfeirio cleifion i wneud ymarfer corff y GIG a meddygon teulu, yn hanfodol.

Nododd yr Aelodau fod GLL yn adolygu cymysgedd cynnyrch a marchnata canolfannau hamdden unigol i dargedu grwpiau penodol, fel teuluoedd a phobl hŷn, yn hytrach na chanolbwyntio ar fyfyrwyr yn unig, fel y gwelir gydag enghraifft Canolfan Hamdden Maendy.

Clywodd yr Aelodau am yr incwm gwell ar gyfer y prif gategorïau a chategorïau iau, gydag Iechyd a Ffitrwydd yn dangos adferiad arafach ond yn dal i ddangos tuedd gadarnhaol. Clywodd yr Aelodau hefyd am y mesurau wedi'u rhoi ar waith i arbed ynni a lleihau costau cyfleustodau, gan gynnwys y cynnig i osod paneli solar yn 2023-2024, yn amodol ar sicrhau cyllid.

Wrth drafod tymheredd pyllau, roedd yr Aelodau'n falch o glywed bod systemau ar waith i reoli galw anarferol am leoedd mewn pyllau yn ystod tywydd poeth.

Rhoddwyd gwybodaeth i'r Aelodau am y rhagolwg ariannol tymor canolig a nodon nhw fod GLL wrthi'n ystyried ffyrdd o gynyddu incwm yn y dyfodol trwy gyflwyno cynhyrchion newydd. Rhoddwyd sicrwydd i'r Aelodau mai enghreifftiau yn unig oedd yr enghreifftiau a grybwyllwyd yn y cyflwyniad ac nad oes unrhyw ganolfannau neu ardaloedd penodol wedi'u cynnig eto.

Roedd yr Aelodau'n falch o glywed bod GLL wedi cadarnhau na fydd y cynhyrchion hyn yn y dyfodol yn dadleoli grwpiau defnyddwyr allweddol ond yn hytrach byddant yn anelu at wella ardaloedd nad ydynt yn cael eu defnyddio.

Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ynghylch a yw GLL yn ystyried unrhyw gau rhannol neu lawn i gyflawni arbedion ariannol. Roeddent yn falch o glywed y sicrwydd nad oes unrhyw gynlluniau i gau'n rhannol neu'n llawn. Yn hytrach, nod GLL yw codi incwm a gwneud ychydig o addasiadau i'r rhaglen i arbed gwariant yn hytrach na chau cyfleusterau.

Wrth drafod Canolfan Hamdden Pentwyn, rhoddwyd gwybod i’r Aelodau fod GLL yn gweithio gyda gweithgareddau a grwpiau cymunedol lleol i gynyddu'r defnydd o'r ystafelloedd a'r mannau sydd ar gael. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau ymhellach fod adroddiad i'r Cabinet ar y ffordd arfaethedig ymlaen ar gyfer Canolfan Hamdden Pentwyn wedi'i drefnu ar gyfer mis Mehefin 2023, ac y byddai'n cynnwys cynigion ar y pwll.

Cydnabu'r Aelodau y cynnydd a wnaed yn erbyn camau gwella a ddeilliwyd o adolygiadau Archwilio Mewnol ac Archwilio Cymru. Clywodd yr Aelodau, mewn ymateb i Argymhelliad 5 Adolygiad Dilynol Archwilio Cymru Hydref 2022, fod y Cyngor wedi penodi ymgynghorwyr allanol i lunio adroddiad arfarnu opsiynau. Bydd yr adroddiad hwn yn amlinellu opsiynau darparu gwasanaethau wrth gefn os bydd contractau'n methu.

CYTUNWYD: y byddai’r Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu arsylwadau’r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

## 79 : YMATEB Y CABINET O RAN CHWARAEON CYMUNEDOL YNG NGHAERDYDD - GWEITHREDU ARGYMHELLION Y CYTUNWYD ARNYNT - DIWEDDARIAD AR GYNNYDD

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau mai diben yr eitem hon oedd craffu ar y cynnydd o ran gweithredu argymhellion o Ymchwiliad y Pwyllgor blaenorol i Bartneriaethau Rhanbarthol Chwaraeon Cymunedol, y cytunwyd arnynt gan y Cabinet. Roedd diweddariad ar gynnydd yn Atodiad A yr adroddiad.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Burke - yr Aelod Cabinet dros Ddiwylliant, Parciau a Digwyddiadau; Steve Morris – Rheolwr Gweithredol – Chwaraeon, Hamdden a Datblygu; Jon Maidment – Rheolwr Gweithredol – Parciau ac Awdurdod Harbwr Caerdydd a Chris Hadfield – Rheolwr Gweithredol – Hamdden ar gyfer yr eitem hon.

Gwahoddwyd y Cynghorydd Burke i wneud datganiad, ac ar ôl hynny gofynnwyd i'r Aelodau am eu cwestiynau, eu sylwadau a'u harsylwadau.

Nododd yr Aelodau fod cynnydd wedi'i wneud ar yr holl argymhellion a gyflwynwyd gan y Pwyllgor blaenorol drwy ei Ymchwiliad 'Chwaraeon Cymunedol yng Nghaerdydd' ym mis Ionawr 2022. O ganlyniad, roedd yr Aelodau'n fodlon ystyried bod yr argymhellion hyn wedi'u cwblhau.

O ran y Bartneriaeth Chwaraeon Ranbarthol arfaethedig, cydnabu'r Aelodau yr honiad a wnaed gan swyddogion eu bod yn eirioli'n gryf i sicrhau nad yw Caerdydd dan anfantais yn y broses hon. Nodon nhw fod trafodaethau ynghylch y map ffordd a'r amserlen ar gyfer gweithredu ar fin digwydd.

CYTUNWYD: y byddai'r Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu arsylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

80 : ADRODDIAD BUSNES Y PWYLLGOR

Nododd yr Aelodau y sefyllfa bresennol o ran gohebiaeth.

Nododd yr Aelodau y wybodaeth a roddwyd gan y Prif Swyddog Craffu ynghylch grwpiau gorchwyl Amgueddfa Caerdydd a'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd.

Gofynnwyd i'r Aelodau am ddatganiadau o ddiddordeb mewn cymryd rhan mewn gwaith craffu ar Ynys Echni, gan gynnwys ymweliad. Datganodd y Cynghorydd Berman a'r Cynghorydd Jenkins ddiddordeb.

81 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Dim wedi'u derbyn.

82 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Dydd Mercher 17 Mai 2023 am 4.30pm

Daeth y cyfarfod i ben am 7.05 pm